

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS FAWRTH 26AIN O FAI 2020 AM 7.30 O'R GLOCH TRWY SKYPE.

1. PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Ceri Davies, Stan Williams, Arwel Davies, Bari Evans, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iwan Jones, Philip Williams, Falmai Evans, Hywel Davies a Geraint Jones.

3. DDATGAN DIDDORDEB – dim yn codi.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 27ain o Ebrill 2020 gan y Cynghorwyr yn bresennol.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi cychwyn trwsio'r ffydd yn y gymuned a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

B. Derbyniwyd y Cynghorydd Arwel Davies gwybodaeth ychwanegol fod y perchennog y datblygiad presennol yn y cyn Eglwys Prion yn torri'r rheolau Cofid-19. Penderfynwyd rhoi'r wybodaeth ymlaen i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y digwyddiadau.

C. Cytunodd y Cynghorydd Arwel Davies gwneud ymholiadau pwy sydd a'r berchnogaeth darn o dir tu ôl i'r Eglwys a'r Tŷ'r Eglwys ym Mhrion.

6 DIWEDDARAF MATERION "COFID-19" YN Y GYMUNED.

Dim newidiadau ers y cyfarfod blaenorol y Cyngor.

7. CYLLID.

A. Datganiad Banc £14,127.57.

B. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r precept am y flwyddyn 2020/2021 £4,040.00.

C. Cais am gefnogaeth arian tuag at gostau'r trelar symudol "Covid-19 Cardiology Clinics" - penderfynwyd ar y rhodd o £500.00.

8. MATERION CYNLLUNIO.

Mae Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

A: Codi estyniad i garej ddomestig yn Tyn-y-Ffynnon, Llanrhaeadr.

B. Codi estyniad i gefn yr annedd a ffurfio teras yn Coed Derw, Prion.

9. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

10. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Joseph Welch:-

A: Mae'r Cyngor Sir Ddinbych am ailgychwyn cyfarfodydd trwy'r wefan.

B. Mae'r Cofid-19 wedi effeithio yn drwm ar gyllid y Cyngor Sir.

11. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Cytunwyd yr aelodau i yrru e-byst yn cynnwys mapiau a lluniau o broblemau ffyrdd yn y gymuned.

B. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r pryderon y cyn tenantiaid 21 Maes-y-Felin, Llanrhaeadr (sydd yn eiddo Cyngor Sir Ddinbych) a chytunodd y Cynghorydd Elfed Williams ysgrifennu at Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar bryderon y Cyngor Cymuned.

12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Nos Lun 29ain o Fehefin 2020 trwy Skype am 7.30 o'r gloch.